Cenn@d

MEHEFIN 16 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 16

# Ffwtbol a Ffydd

**Yn yr erthygl hon, a hynny yn nhymor cystadleuaeth pêl-droed yr Ewros, mae Aled Davies yn trafod cysylltiadau'r gêm â'r ffydd Gristnogol.**







Erbyn hyn mae'r Ewros wedi dechrau, a bydd sawl gêm bêl-droed i'w gweld ar y teledu'n ddyddiol dros yr wythnosau nesaf. Ac ydi, diolch byth, mae tîm Cymru ynghanol y cyffro, ac ar ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn o *Cenn@d* (Mehefin 16) mae Cymru yn herio Twrci am 5.00, a hynny'n dilyn gêm gyfartal, 1–1, yn erbyn y Swistir bnawn Sadwrn diwethaf. I gefnogwyr tîm pêl-droed Cymru, er y siom o orfod gohirio'r Ewros yn 2020 a'r cyfyngu ar y teithio a'r niferoedd mewn stadiwm ar gyfer 2021, mae yna gynnwrf mawr wedi bod wrth ddisgwyl am weld Cymru'n cystadlu ymhlith y 24 tîm sy'n gobeithio codi'r cwpan ymhen y mis. Yn dilyn llwyddiant ysgubol 2016, gwelwyd tîm Cymru yn codi o fewn y rhengoedd, a'r 'wal goch' dorfol bellach yn olygfa gyfarwydd wrth i gynifer o gefnogwyr deithio i ddilyn Cymru dramor. Ond eleni, ar deledu bydd y rhan fwyaf ohonom yn gwylio'r gemau, boed gartref neu mewn tafarn.

Mae'n debyg fod y byd pêl-droed yn cael ei gysylltu'n glòs erbyn hyn â diwylliant y dafarn a chwrw, gyda gemau lloeren yr Uwch-gynghrair yn cael eu darlledu oddi yno, a llawer tafarn yn trefnu tripiau pêl-droed ac efo'u timau pêl-droed eu hunain hyd yn oed. Y bragdai yw prif noddwyr y clybiau pêl-droed, ac maent yn obeithiol am werthiant sylweddol o ddiod dros yr wythnosau nesaf.

Ar un olwg, mae diwylliant y byd pêl-droed yn medru ymddangos yn fyd diarth iawn mewn perthynas â'n ffydd a bywyd yr eglwysi. Yn aml iawn, cwyno am gemau'n cael eu chwarae ar y Sul a wnawn, a phryder am golli plant o'r ysgol Sul oherwydd ymarferiadau pêl-droed ar fore Sul. Ond mewn oes a fu, y capeli ac ysgolion Sul fu'n hyrwyddo pêl-droed, yn fwy na'r tafarndai! Mewn cyfnod lle roedd y 'ddiod gadarn' yn chwalu teuluoedd, gwelodd yr eglwys gyfle i ymestyn allan at ddynion drwy sefydlu timau lleol i gystadlu ymhlith ei gilydd.

Mae llawer o'r timau cynnar hynny erbyn hyn yn brif dimau yn yr Uwch-gynghrair. Sefydlwyd clwb Everton gan Eglwys Fethodistaidd St Domingos yn 1879, a Fulham yn 1880, ill dau fel timau oedolion o'r ysgol Sul. Clybiau eraill sydd â'u dechreuadau mewn eglwysi yw Manchester City, a sefydlwyd gan Eglwys Anglicanaidd St Mark's yn y ddinas, Southampton F.C. a Celtic yn yr Alban. Roeddent yn cystadlu yn y brif ffrwd ar y pryd, ac yn cael eu rheoli gan weinidogion a ficeriaid. Adwaenir Southampton fel y Seintiau, ac yn y Drenewydd yr un fath ceir tîm y Seintiau Newydd ar ôl Sant Oswald. Mae cae Goodison Park yn ffinio â'r capel, a byddai cryn deithio rhwng y ddau safle yn y dyddiau cynnar.




Mae yna draddodiad o ganu emynau o'r teras hefyd. Canwyd yr emyn 'Abide with me' am y tro cyntaf yn ffeinal cwpan yr FA rhwng Arsenal a Chaerdydd, ac mae'r traddodiad hwnnw wedi parhau hyd heddiw. Caerdydd, gyda llaw, oedd yn fuddugol y flwyddyn honno, gan guro Arsenal 1–0.

(parhad ar y dudalen nesaf)

O'r byd a'r betws
Croes dros gyfiawnder
Tudalen 3

Coffâd – Y Parchedig William Ieuan Cynwil Williams (1936–2021)
Tudalen 4

Dyma gyfarfod hyfryd iawn
Pwy yw hwn?
Tudalen 8

# Ffwtbol a Ffydd

*(parhad o dudalen 1)*

Mae nifer o chwaraewyr pêl-droed adnabyddus wedi arddel ffydd gadarn hefyd, gan gynnwys enwau fel Lionel Messi, Thierry Henry, David Luiz, David Silva, Raheem Stirling a Daniel Sturridge. Mae Alisson Becker, gôl-geidwad Lerpwl a Brasil (ac ef hefyd oedd gôl-geidwad y Flwyddyn gan FIFA am 2020), wedi bedyddio sawl pêl-droediwr, gan gynnwys Roberto Firmino. Mae rheolwr Lerpwl, Jürgen Klopp, hefyd yn Gristion sy'n siarad yn gyhoeddus am ei ffydd. Meddai mewn cyfweliad diweddar, 'Nid oes unrhyw beth sy'n bwysicach i mi na fy ffydd. Gwn fod Duw yno bob amser. Dyna pam nad wyf yn poeni am golli fy ffydd; fy ffydd sy'n golygu nad oes gen i reswm i ofni na phoeni am ddim byd.'



Un arall sy'n arddel ffydd gadarn yw da Silva. Mae Willian Borges da Silva, sy'n fwy adnabyddus fel Willian, yn ei seithfed tymor gyda Chelsea yn Uwch-gynghrair Lloegr. Dechreuodd ei yrfa yn Brasil, a chafodd gyfnodau'n chwarae yn yr Wcráin a Rwsia, cyn cyrraedd Cheslea. Er iddo gael ei fagu yn yr eglwys Gatholig, yn ystod ei amser yn yr Wcráin y dechreuodd Willian ddeall y Beibl mewn gwirionedd. Tystia iddo dderbyn Crist fel ei Waredwr a chafodd ei fedyddio gyda'i wraig pan oedd yn chwarae i Shakhtar yn Donetsk, Wcráin.

'Mae pobl yn meddwl bod pêl-droedwyr â diddordeb mewn ceir cyflym, tai moethus, partïon gwyllt a merched yn unig,' meddai Willian mewn cyfweliad yn ddiweddar. 'I mi, Duw sy'n dod gyntaf, o flaen popeth arall.' Mae'n rhannu ei ffydd â'i naw miliwn o ddilynwyr ar Instagram, lle mae ei *bio* yn nodi'n glir, 'Rwy'n perthyn i Iesu.'

Er bod unrhyw drafodaeth am ffydd yn arfer bod yn beth prin ym myd pêl-droed, nid yw bellach yn anghyffredin i chwaraewyr fod yn agored ynghylch pa mor bwysig yw eu perthynas â Christ iddynt. Meddai James Morton, chwaraewr canol cae i Bristol City, yn ddiweddar: 'Mae pêl-droed yn rhan enfawr o fy mywyd i, yn union fel mae fy ffydd erbyn hyn. Cefais fy magu mewn teulu Cristnogol, ond tua phum mlynedd yn ôl, fe gymerais gam mawr ymlaen yn fy ffydd, gan wneud proffes drosof fy hun. Roeddwn i eisiau gwneud hynny oherwydd sylweddolais pwy oedd Duw, a sut mae hynny yn rhoi pwrpas a hunaniaeth i mi. Pe bawn i ddim ond yn dibynnu ar bêl-droed, ni fyddwn yn cael cymaint allan o fywyd.' Mae Morton yn cymryd rhan mewn cyfarfod Zoom wythnosol gyda chwaraewyr eraill ledled y wlad i siarad am bwnc penodol sy'n gysylltiedig â'r Beibl.

Mae ambell bêl-droediwr hefyd wedi gwneud safiad ynghylch chwarae ar y Sul. Yn ystod Cwpan y Byd 1982, gwrthododd chwaraewr Gogledd Iwerddon, Johnny Jameson, chwarae i Ogledd Iwerddon yn erbyn Ffrainc oherwydd bod y gêm ar ddydd Sul

Chwaraewr enwog yn y 70au oedd Peter Knowles, a fu'n chwarae i Wolverhampton Wanderers a Lloegr. Wedi iddo ymddeol o fyd pêl-droed, aeth Knowles ymlaen i gael ei ordeinio'n weinidog; dyma oedd y symbyliad i gân enwog Billy Bragg, 'God's Footballer'. Yn yr un ffordd, ar ôl iddo yntau ymddeol, aeth Gavin Peacock, chwaraewr canol cae QPR, ymlaen i gael ei ordeinio. Bellach, mae'n weinidog ar eglwys lwyddiannus yn Calgary, Canada. Bu'r Pab Ioan Pawl II hefyd yn gôl-geidwad reit lwyddiannus yn ystod ei ieuenctid yng ngwlad Pwyl.

Diolch am Gristnogion gweithgar ym myd pêl-droed heddiw ac am waith elusennau fel Christians in Sport. Diolch hefyd am y rhai hynny a welodd gyfle, flynyddoedd yn ôl, i ymestyn allan i'r gymuned. Ers blynyddoedd, mae'r Parch Eirian Wyn, Brynaman, wedi bod yn gaplan ieuenctid i dîm yr Elyrch, ac wedi bod yn cyhoeddi yn Gymraeg dros yr uchelseinydd mewn gemau ar gae'r Liberty. Trwy'r gwaith yma, cafodd nifer o sgyrsiau dwys ac adeiladol gyda chwaraewyr ar hyd y blynyddoedd.




Bydd llawer cylch lleol yn trefnu twrnameintiau pêl-droed rhwng ysgolion Sul a'i gilydd. Ac am flynyddoedd bu twrnamaint cenedlaethol yn cael ei drefnu gan Gyngor yr Ysgolion Sul lle roedd dros 1,500 o blant yn ymgynnull yn flynyddol.

Onid oes her i ni yma i geisio pontio byd ffydd efo'r gymuned ehangach, a pha ffordd well na thrwy gyfrwng pêl-droed yng nghyfnod yr Ewros. Mae'n beryg bod byd y capel a byd y cae pêl-droed wedi ymbellhau dros y degawdau diwethaf. Onid oes cyfle yma i ni fod ynghanol bwrlwm chwaraeon y cyfnod hwn. Bydd ambell eglwys yn dangos gemau ar sgrin fawr, ac yn trefnu digwyddiad fel barbeciw o'i gwmpas. Gyda Sul y Tadau yn digwydd y penwythnos yma, a all digwyddiad pêl-droed fod yn gyfrwng i gael teuluoedd ynghyd?

Pob hwyl i hogiau Cymru, a phob hwyl i ninnau hefyd gyda'n cenhadaeth.




## Diwrnod Golff
## Dydd Llun Medi 13eg 2021
## yng Nghlwb Golff Llangollen

Mae diwrnod golff wedi cael ei gynnal ers sawl blwyddyn bellach o dan faner *Y Goleuad* a'r *Treasury*.

Eleni rydym am agor y diwrnod i unrhyw aelod o Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb y Bedyddwyr, a hefyd unrhyw aelod o enwad arall sy'n cydaddoli gydag eglwysi o'r ddau enwad uchod.

Does dim angen i chi fod yn aelod o glwb golff na efo handicap swyddogol.



**Trefn y Dydd fydd:**

Cyfarfod am 11.15 y bore am frechdan cig moch a phaned

Rownd o golff 18 twll (tî cyntaf am hanner dydd)

Pryd o fwyd dau gwrs ar ddiwedd y golff am oddeutu 5 p.m.

Bydd y gost yn ddibynnol ar y nifer sy'n mynychu'r diwrnod ond bydd tua £40

Gadewch i'r trefnydd, Geraint Wyn Jones, wybod mewn da bryd os ydych am chwarae.

E-bost: geraint.w.jones@btinternet.com

Ffôn: 01978 846151     Neges testun i: 07707752901

